# Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy

# 2019- 2029



Ionawr 2019

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio ac ymweld**

**Conwy County, the right environment to live, work and visit**

# Cynnwys


| | | Tud |
|---|---|---|
| 1 | **Twristiaeth - Curiad calon Conwy** | 3 |
| 2 | **Beth yw ein Gweledigaeth?** | 4 |
| 3 | **Cyflwyno Conwy** | 5 |
| 4 | **Beth sy'n gwneud Sir Conwy yn gyrchfan mor ddeniadol?** | 8 |
| 5 | **Pam mae arnom angen Cynllun Rheoli Cyrchfan?** | 10 |
| 6 | **Felly beth yw Rheoli Cyrchfan?** | 10 |
| 7 | **A beth sydd angen i ni ei reoli?** | 12 |
| 8 | **Pwy fydd yn gwireddu'r Cynllun?** | 15 |
| 9 | **Cwmpasu ymagwedd strategol** | 16 |
| 10 | **Beth rydym am ei gyflawni?** | 18 |
| 11 | **Cynllun Gweithredu** | 21 |
| 12 | **Manylion Cyswllt** | 21 |


# 1 Twristiaeth - Curiad calon Conwy

Twristiaeth yw curiad calon economi Conwy, ac rydym yn falch o fod yn gweithio gyda'r diwydiant hwn ac yn ei gefnogi. Oherwydd ein golygfeydd gwych, hanes hir ein treftadaeth ddiwylliannol, ein hamrywiaeth anhygoel o atyniadau, a doniau ac agwedd groesawgar ein pobl fusnes mae Conwy'n datblygu i fod yn gyrchfan heb ei hail....ac yn cael ei chydnabod yn fyd-eang.

Ar draws Conwy, mae twristiaeth yn sector sy'n allweddol i economi'r sir. Sir Conwy yw un o brif gyrchfannau twristiaeth Cymru, a chraidd y gyrchfan honno yw un o brif gyrchfannau glan môr y Deyrnas Unedig. £887miliwn yw gwerth twristiaeth i'r sir, ac mae'r arian hwnnw'n cael ei gynhyrchu gan 9.5 miliwn o ymwelwyr. O'r naill flwyddyn i'r nesaf, mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu a phroffil Conwy a Gogledd Cymru yn parhau i dyfu.

Mae penderfyniad Partneriaeth Cyrchfan Conwy i gynhyrchu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn felly'n amserol, ac yn cyfleu'n glir beth yw ein gweledigaeth ar gyfer twristiaeth dros y deng mlynedd nesaf, a'r blaenoriaethau y mae angen inni eu cyflawni. Bu'n bleser gweld sut mae'r sector, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector oll wedi cydweithio i lunio dogfen sy'n rhoi cyfeiriad, cefnogaeth a gweledigaeth i'r holl grwpiau amrywiol hyn. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi ein busnesau twristiaeth, o fudd i'n hymwelwyr ac, yn bennaf oll, yn cefnogi ac yn datblygu ein holl gymuned ar draws Conwy. Bydd yn ein galluogi i chwarae rhan er mwyn sicrhau bod gan Gonwy sector twristiaeth cynaliadwy a llewyrchus, sy'n parhau i ennill cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol am ei naws am le ac am bopeth y mae'n ei gynnig i'n hymwelwyr.

Pleser yw cymeradwyo a chefnogi'r Cynllun hwn.

Christopher Owens
Cadeirydd
Cyrchfan Conwy



Y Cynghorydd Louise Emery
Aelod Cabinet
Datblygu Economaidd





Lluniau: Adventure Parc Snowdonia, Blas ar Fwyd, Martin Lyons Photography, PM Photography, © Visit Britain, © Hawlfraint y Goron (2019) Croeso Cymru/Crown Copyright (2019) Visit Wales, Zip World.











## 2 Beth yw ein Gweledigaeth?

Rydym am i ddiwydiant twristiaeth Conwy fod yn ddiwydiant sy'n gosod Conwy a Gogledd Cymru ar lwyfan y byd, yn llwyddiannus, yn ddeinamig ac yn cydweithio i wireddu manteision gwirioneddol i fusnesau a'r gymuned leol.

Anelwn i wneud hyn drwy:

- Gynyddu gwerth twristiaeth ar draws y flwyddyn gyfan;
- Sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd profiadau ymwelwyr;
- Ennyn diddordeb ymwelwyr yn ein treftadaeth, boed honno'n ddiwylliannol, yn llafar neu'n adeiledig;
- Cefnogaeth i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â sgiliau a'r gweithlu;
- Gweithio mewn partneriaeth;
- Datblygu proffil cadarnhaol drwy farchnata Sir Conwy yn effeithiol;
- Sicrhau bod Fframwaith Cynllunio'r Sir yn bodloni anghenion y diwydiant ac yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â thueddiadau sydd yn dod i'r amlwg ym maes twristiaeth.

Nodwyd yr amcanion hyn ar ôl proses ymgynghori a oedd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid a phartïon â buddiant, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â sefydliadau cynrychioliadol. Yn dilyn hynny, mae Partneriaeth Cyrchfan Conwy wedi datblygu'r Cynllun Rheoli hwn er mwyn gweithio tuag at yr amcanion hyn. Drwy ganolbwyntio ar yr amcanion hyn, a thrwy nodi blaenoriaethau o dan bob amcan, gall y Bartneriaeth Cyrchfan Conwy wedyn ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer eitemau mesuradwy penodol a fydd yn esgor ar ganlyniadau o fewn cyfnod cytunedig o amser.













## 3 Cyflwyno Conwy


Mae Conwy yn sir amrywiol sy'n cynnwys ardal o 1,130 km sgwâr, ac yng nghanol Gogledd Cymru. Mae daearyddiaeth y sir yn amrywio, rhwng y sir a chanol Parc Cenedlaethol Eryri, gan gynnig amrywiaeth o olygfeydd a chyfleoedd hamdden.

Mae'n cysylltu Dwyrain, Gorllewin a Chanolbarth Cymru, ac amcangyfrifir bod oddeutu 116,850 yn byw ynddi. Oherwydd ei lleoliad, mae Conwy hefyd yn cynnig mynediad rhwydd i ddwy ddinas a dau faes awyr ryngwladol yn Lerpwl a Manceinion. O fewn deugain munud, gellir cyrraedd canolbwynt mordeithiau a fferis rhyngwladol sy'n cysylltu Caergybi ag Iwerddon - Dulyn, yn benodol - a'r byd. Yn ogystal â hyn, mae lleoliad Conwy wrth ymyl yr A55 (o'r Dwyrain i'r Gorllewin) a'r A470 (o'r Gogledd i'r De) yn creu cysylltiadau ffordd dirwystr ag Iwerddon a Lloegr. Ceir hefyd fynediad da at gysylltiadau rheilffordd, gyda Chyffordd Llandudno yn orsaf allweddol sy'n cysylltu Llundain â'r sir o fewn llai na 3 awr.

Mae hyn yn golygu bod Sir Conwy nid yn unig yn lleoliad delfrydol er mwyn darganfod Gogledd Cymru, ond ei bod hefyd mewn lleoliad da i grwydro Gogledd Orllewin Lloegr a'r Gororau yn ogystal ag Iwerddon.

Oherwydd ei leoliad, mae gan Gonwy ddalgylch ymwelwyr sydd, o fewn 3 awr o amser gyrru, yn cwmpasu bron pob un o brif gytrefi Gogledd Lloegr a rhan helaeth o boblogaeth y DU. Mae hyn, ynghyd â'i daearyddiaeth a'i harlwy i ymwelwyr sydd yn datblygu o hyd, yn golygu bod y sir yn atyniadol iawn o safbwynt twristiaeth, gan ddenu 9.5 miliwn o ymwelwyr yn 2017 (data STEAM), gan olygu mai dyma brif gyrchfan Gogledd Cymru.


**Gogledd Cymru - 2017 Cyfanswm yr Ymwelwyr fesul Sir** *(ffynhonnell: STEAM 2017)*




*mae'r ffigyrau mewn cromfachau yn dangos cynnydd/ gostyngiad o gymharu â 2016*

Ni ddylai fod yn syndod felly fod twristiaeth yn sector â blaenoriaeth i Gonwy, amcangyfrifir mai £887.62miliwn yw gwerth twristiaeth i'r economi leol, gan gefnogi dros 12,319 o swyddi yn y sir (data 2017 STEAM).


**Effaith Economaidd Twristiaeth fesul Sir**
*(ffynhonnell: STEAM 2017)*




Nid yw'n syndod bod y sir yn denu ystod eang o wahanol fathau o ymwelwyr, ac mai ymwelwyr dydd sydd i gyfrif am y mwyaf o'r rheiny. Ymwelwyr dydd yw'r rhai sydd yn dod o ardal arall i ymweld â'r sir, gan dreulio rhan o'r diwrnod neu ddiwrnod cyfan yno, heb ddefnyddio unrhyw lety dros nos yn lleol.

Mae nifer yr ymwelwyr sydd yn aros dros nos ar draws y sir yn fwy arwyddocaol, sef 2.7 miliwn o ymwelwyr (data 2017 STEAM), sy'n gynnydd o 3.7% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Bydd ymwelwyr sydd yn aros yn treulio cyfnod yn y sir, ac yn defnyddio llety dros nos eto o fewn y sir.

**Nifer yr Ymwelwyr â Sir Conwy yn ôl Math**
*(ffynhonnell: STEAM 2016)*





Mae ymwelwyr sydd yn aros yn arbennig o werthfawr i'r economi leol, am eu bod nid yn unig yn gwario ar ddarparwyr llety ond hefyd yn gwario mewn bwytai, tafarndai a siopau lleol - sydd yn ei dro yn creu gwariant gan y busnesau hyn o fewn yr economi leol.

Yn wir, er bod nifer yr ymwelwyr sydd yn aros ond yn cynrychioli traean o'r ymwelwyr dydd, mae eu heffaith economaidd bron ddwywaith yn fwy nag effaith ymwelwyr dydd.




**Effaith Economaidd Mathau o Ymwelwyr yn Sir Conwy**
*(ffynhonnell: STEAM 2016)*




Mae llawer o ymwelwyr sydd yn aros wedi'u lleoli ar hyd y llain arfordirol. Mae Llandudno yn gweithredu fel canolfan ranbarthol ar gyfer llety â gwasanaeth yng Ngogledd Cymru ac, yn wir, i gyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm y stoc o lety â gwasanaeth yng Nghymru gyfan. Gall Llandudno gynnig dros 15,000 o welyau bob nos, gydag amrywiaeth eang o lety fydd yn gweddu i bob math o ymwelydd. Tuag at Ddwyrain y sir, mae llety heb wasanaeth (cartrefi symudol sefydlog yn bennaf) yn cynnig oddeutu 50,000 o welyau bob nos. Ar draws y sir yn ei chyfanrwydd, ceir amrywiaeth gref o opsiynau llety sydd yn gynyddol ddeinamig ac yn newid yn gyflym, o wersylloedd a thai bync, glampio, eiddo hunangynhaliol, meysydd carafanau, llety gwely a brecwast a thai llety, hyd at ddarpariaeth wych o westai bach, *boutique*, mawr a chwaethus.

Mae datblygiad atyniadau yng Ngogledd Cymru, ac yng Nghonwy yn enwedig, wedi golygu bod nifer cynyddol o ymwelwyr o wledydd tramor yn treulio amser yn y sir. Cafwyd cynnydd o bron i 50% yn nifer yr ymwelwyr o wledydd tramor rhwng 2011 a 2016, gan gyrraedd 80,000 o ymwelwyr y flwyddyn (data IPS 2016). Mae rhai cyrchfannau allweddol yn y sir yn arbennig o atyniadol i ymwelwyr o gyrchfannau penodol, ac mae hyn yn creu agwedd arall gadarnhaol o ran cyfleoedd yn gysylltiedig â thwristiaeth yn y dyfodol.

**Ymwelwyr o Wledydd Tramor â Sir Conwy**
*(ffynhonnell: IPS/ONS)*



## 4 Beth sy'n gwneud Sir Conwy yn gyrchfan mor ddeniadol?

Fel y nodwyd eisoes, mae Conwy mewn lle delfrydol i ddarganfod Gogledd Cymru a thu hwnt. Yn yr un modd, mae amgylchedd naturiol y môr, y mynyddoedd a'r cymoedd yn creu adnoddau ar gyfer amrywiaeth anhygoel o gyfleoedd twristiaeth i ymwelwyr.

Yn benodol, ceir amrywiaeth ryfeddol o weithgareddau antur sydd wedi troi Gogledd Cymru yn brif gyrchfan antur y DU. Mae'r rhain yn cynnwys syrffio, gwifrau zip, crwydro mwyngloddiau, beicio mynydd, hwylio, syrffio barcud, dringo creigiau a cherdded.

Ond mae gan Gonwy fwy i'w gynnig hyd yn oed...

- Mae gan Gonwy 45 milltir o arfordir, y mae 17.5% ohono wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae'n cynnig traethau sydd yn groesawgar i deuluoedd - gan gynnwys amryw o draethau Baner Las, cychod a chwaraeon dŵr, harbyrau prysur a'r pier hiraf yng Nghymru.

- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn croesi'r sir, ac mae dau lwybr newydd Ffordd Cymru (Ffordd Gogledd Cymru a Ffordd Cambria) yn croesi'r sir, gan olygu bod llawer o lwybrau ar gael sydd yn addas i feiciau, beiciau modur, cerbydau a cherddwyr.

- Mae'r sir yn cynnig dau farina a chanddynt wasanaeth llawn, yn ogystal â chyfleusterau chwaraeon dŵr oddi ar y glannau ac ar lynnoedd ac afonydd.

- Mae'r amgylchedd a bywyd gwyllt i'w gweld yn amlwg ar draws y sir, gan gynnwys SoDdGA Parc Gwledig y Gogarth, Gwarchodfa RSPB Conwy a Gerddi Bodnant. Mae 38% o'r sir ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

- Mae ein treftadaeth ddiwylliannol a'n hetifeddiaeth Gymraeg yn golygu bod Conwy yn gyforiog o fythau a chwedlau, gan gynnig ymdeimlad cryf o le, ac fel sir mae ganddi nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg - gan roi profiad i ymwelwyr o'r Gymraeg ac o'n treftadaeth Gymreig.

- Mae ein treftadaeth adeiledig yn cynnwys Castell a Muriau Tref Conwy sy'n Safle Treftadaeth y Byd, nifer o gestyll a henebion eraill, cylchoedd cerrig a Mwynglawdd Copr y Gogarth.

- Mae Sir Conwy yn ganolfan ddiwylliannol, gyda theatr fawr ranbarthol a chanolfan gynadledda yn Venue Cymru, yn ogystal ag amgueddfeydd, orielau, gweithwyr crefft a gwyliau celfyddydol cyffrous. Yn 2019, bydd y sir yn gallu ymfalchïo mewn Canolfan Ddiwylliannol newydd yn nhref Conwy.

- Mae gan y sir ddewis rhagorol o siopau, gyda llawer o fân-werthwyr annibynnol ac arbenigol yn cynnig dewis gwirioneddol i ymwelwyr. Mae Llandudno hefyd yn ganolfan adwerthu o bwys.

- Mae Sir Conwy wedi dod i'r amlwg fel un o'r prif gyrchfannau rhyngwladol i rai sy'n chwilio am antur. Mae'r atyniadau'n cynnwys Surf Snowdonia, Zip World Fforest, Go Below, Canolfan Sgïo Llandudno, Cartio Glan y Gors a Thir Prins, ynghyd â chyfleoedd helaeth i feicio ar y ffordd a beicio mynydd.

- Mae gan y sir gyfoeth o gynhyrchwyr bwyd a diod sydd wedi ennill gwobrau - o siocledwyr i gigyddion, gwinllannoedd a chynhyrchwyr iogwrt - yn ogystal â chynnyrch fferm sydd gyda'r goreuon.

- Mae'r cynnyrch lleol hwn o gymorth i gefnogi'r hyn y gallwn ei gynnig o ran lletygarwch ar draws y sir, sydd wedi ennill enw da am fwyd a gwasanaeth, gan ddenu a datblygu cogyddion blaenllaw.

- Mae Conwy yn sir a chanddi enw da am chwaraeon, gyda chyfleoedd i gymryd rhan neu wylio yn unig. Ceir cyrsiau golff ardderchog, sy'n cynnal pencampwriaethau rhyngwladol (gan gynnwys Cwpan Curtis 2020). Mae Parc Eirias yn gartref i un o dimau Rygbi Prif Gynghrair Cymru ac i dîm dan 20 Cymru, ac yn cynnal gemau rygbi rhyngwladol dan 20. Oherwydd daearyddiaeth yr ardal leol, mae'r sir hefyd yn ddeniadol ar gyfer ralïo ceir, gan gynnwys Rali Cymru GB a Rali Cambria.

- Mae Conwy hefyd wedi ennill enw da fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau mawr. Flwyddyn ar ôl blwyddyn mae'r sir yn cynnal amrywiaeth gynyddol o ddigwyddiadau rhyngwladol, ym maes chwaraeon, treftadaeth, diwylliant a cherddoriaeth - gyda phopeth o Proms yn y Parc i Bencampwriaeth Snwcer y Byd a Physgota Môr ac Eisteddfod Genedlaethol 2019.

- Mae Conwy yn elwa ar gyflenwad o syniadau a datblygiadau newydd sydd yn graddol gynnig cyfleoedd newydd ym maes twristiaeth, fel Menter Awyr Dywyll ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

- Mae Sir Conwy wedi ennill llu o anrhydeddau a gwobrau am ei hatyniadau a'i llety dros y blynyddoedd diwethaf - gan sefydliadau mor amrywiol â Lonely Planet, TripAdvisor a Chymdeithas Asiantau Teithio Japan - sy'n dangos ymwybyddiaeth a diddordeb cynyddol ar draws y diwydiant teithio a lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith ymwelwyr.

Mae'r amrywiaeth eang hon o atyniadau sy'n parhau i ddatblygu hefyd wedi golygu bod ymwelwyr, a oedd yn arfer cael eu denu i ganolfannau arfordirol y sir, bellach wedi dechrau crwydro i rannau ehangach o'r sir. Wrth i'r arfer hon ddatblygu, mae'n bwysig i'r holl sectorau sy'n ymwneud â'r economi dwristiaeth gydweithio mewn modd rhagweithiol i reoli a chynyddu'r cyfleoedd i'r sir yn sgil twristiaeth.

## 5 Pam mae arnom angen Cynllun Rheoli Cyrchfan?

Datganiad cyffredin o fwriad yw Cynllun Rheoli Cyrchfan. Pwrpas y cynllun yw rheoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser gan gyfleu rolau gwahanol randdeiliaid a nodi camau clir i'w cymryd ganddynt. Drwy gael Cynllun, sydd wedi cael ei greu drwy broses ymgynghorol gyda mewnbwn gan lawer o randdeiliaid, mae pawb yn ymwybodol o'r cyfeiriad yr ydym am fynd tuag ato, a'r blaenoriaethau a fydd yn llunio polisïau a chamau gweithredu yn y cyfnod sydd i ddod. Mae hyn yn golygu y dylid sicrhau cysondeb rhwng amcanion a gwaith gwahanol bartneriaid - boed y rheiny yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector - gan weithio tuag at y nod cyffredin o greu Cymru sy'n well i bawb.

## 6 Felly beth yw Rheoli Cyrchfan?

Rheoli Cyrchfan yw proses o gydgysylltu pob agwedd ar gyrchfan sydd yn cyfrannu at brofiad yr ymwelydd, gan ystyried anghenion ymwelwyr, preswylwyr, busnesau a'r amgylchedd lleol.

Drwy reoli'r gyrchfan, nid yn unig y bydd ymwelwyr yn cael y profiadau gorau posib drwy gydol eu cyfnod gyda ni, ond bydd preswylwyr a'r economi leol yn elwa wrth i ymwelwyr aros am gyfnod hwy a gwario mwy yn sgil hynny - fydd (o gefnogi hynny drwy'r Cynllun a thrwy ddulliau eraill) yn ei dro yn gweddnewid yr economi leol, gan greu mwy o swyddi, busnes a gweithgarwch economaidd.



# 7 A beth sydd angen i ni ei reoli?

Mae gan Sir Conwy'r fantais enfawr o gael asedau naturiol pwysig ar garreg ei drws, ochr yn ochr â lleoliadau sydd wedi'u targedu'n gryf at ymwelwyr a phrif gyrchfan glan môr Cymru. Rôl y CRhC yw diogelu a gwella'r holl asedau hyn er mwyn sicrhau'r profiad gorau i ymwelwyr a phreswylwyr, y budd economaidd mwyaf i'r economi leol, a lliniaru a mynd i'r afael ag effaith twristiaeth os oes perygl i hynny niweidio cymunedau. Un o amcanion craidd y Cynllun hwn yw bod pob rhan o'r Cyngor, ac amrywiaeth mor fawr ag sy'n bosibl o fusnesau, yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol - a bod cefnogaeth tuag at dwristiaeth a phrofiad ymwelwyr yn treiddio drwy bob agwedd ar waith a gyflawnir yn lleol.

Mae angen inni hefyd gydnabod bod angen i CRhC effeithiol ymestyn y tu hwnt i'r diffiniadau o dwristiaeth sydd weithiau'n gyfyng. Yn enwedig mewn ardal fel Sir Conwy, mae'r elfennau sydd yn dod ynghyd i gefnogi'r hyn a gynigir i ymwelwyr yn amrywio'n eang, rhwng yr amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol a chyfleusterau yn y gymuned ac ardaloedd seilwaith ehangach fel cludiant a thai.

Cydnabyddir bod angen defnyddio Fframwaith Cynllunio'r Sir i reoli agweddau y tybir eu bod yn niweidiol, ond dylai hefyd fod yn fecanwaith i gefnogi agweddau sydd yn gwella neu'n arloesi. Mae Cyrchfan Conwy yn ymrwymo i gynnig ei brofiad Rheoli Cyrchfannau fel bod anghenion y gyrchfan wedi'u deall ac yn datblygu i fod wedi'u hymwreiddio yn y system gynllunio. Drwy hynny, fe'u rheolir yn briodol er mwyn cefnogi'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ar draws y sir. Yn benodol, mae angen i'r Fframwaith yn ei hanfod fod yn ddigon ystwyth i ymateb i newidiadau ar draws y sector twristiaeth, fel bo modd i Sir Conwy reoli bygythiadau a manteisio ar gyfleoedd yn well.

Y byrdwn strategol eang dros y cyfnod sydd ar ddod yw sicrhau mai Conwy yw'r brif gyrchfan yng Nghymru, a chyrchfan sydd yn adnabyddus ar lwyfan y byd o gyrchfannau i ymwelwyr. Cyflawnir hyn drwy barhau i wella'r ystod lawn o seilwaith a chyfleusterau ar draws y sir gyfan, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddatblygu a gwella hygyrchedd a chyfleusterau mewn lleoliadau sy'n allweddol i ymwelwyr, ac ar hyd "Dwy Ffordd Cymru" (sydd yn cynnwys llinellau'r A55 a'r A470 yn fras). Er y bydd y Cynllun yn parhau i ymdrin ag adfywio fel blaenoriaeth, bydd hefyd yn nodi y dylid cynnal cyrchfannau cryf presennol mewn modd cadarnhaol, ac naill ai eu hadnewyddu neu eu gwella er mwyn iddynt barhau i fod yn ddeniadol i ymwelwyr.

Mae'n werth nodi bod ymwelwyr yn cyfeirio at amryw o gyrchfannau yn y sir fel cyrchfannau glân a thaclus sydd wedi'u cynnal yn dda, ac mae'r Cynllun yn anelu i barhau a datblygu materion yn gysylltiedig â chynaliadwyedd a thwristiaeth gyfrifol. Gwneir hyn drwy gynlluniau achredu cydnabyddedig neu drwy ymgysylltu â'r gymuned a busnesau ynghylch materion cynaliadwyedd penodol. Yn ogystal â hynny, cydnabyddir bod angen lliniaru a rheoli effaith niferoedd mawr o ymwelwyr mewn mannau poblogaidd iawn, gwasgbwyntiau neu ddigwyddiadau achlysurol. Ochr yn ochr â hyn, ceir byrdwn i annog pobl i archwilio'r ardal drwy ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau cludiant yn hytrach na cherbydau preifat, ac amcan hirdymor yw datblygu system cludiant cyhoeddus integredig ar draws yr ardal.

Yn ogystal â hynny, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â disgwyliadau ymwelwyr, mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen ymgysylltu â chydweithio mewn modd strategol â phartneriaid eraill ar faterion allweddol ehangach, yn enwedig sgiliau neilltuol a'r gweithlu ac uwchraddio ansawdd a chynnal y llety sydd ar gael yn yr ardal.

Bydd yr holl waith hwn o gymorth i ymestyn y farchnad dwristiaeth (o ran nifer yr ymwelwyr a'r tymhorau) er mwyn iddi weithredu drwy'r flwyddyn gron, gan dyfu gwerth ar draws y sir i fusnesau, unigolion a'r sector cyhoeddus. Yn ei dro, bydd hyn yn annog mwy o gydweithio rhwng partneriaid ac yn gwella profiadau i ymwelwyr a phreswylwyr, y naill a'r llall. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnig cyfle i sefydlu strategaethau lleol ar gyfer gwahanol rannau o'r sir (er enghraifft, arfordir y Dwyrain a'r Gorllewin), wrth i ddata gwell alluogi gwaith ymchwil i'r darlun twristiaeth yn yr ardaloedd hyn, a dealltwriaeth o hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ymgysylltiad a chefnogaeth yr holl bartneriaid er mwyn sicrhau data priodol er budd yr holl bartïon.

Mae'r Cynllun wedi pennu nifer o amcanion y mae angen eu cyflawni dros oes y Cynllun. Er mwyn cyflawni pob amcan, nodwyd nifer o flaenoriaethau allweddol. Bydd y blaenoriaethau hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i lunio camau unigol, a chanlyniadau penodol a mesuradwy i'w cyflawni dros gyfnod penodol o amser. Rhestrir yr amcanion a'r blaenoriaethau yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.



## 8 Pwy fydd yn gwireddu'r Cynllun?

Yn y pen draw, mae pob unigolyn sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Conwy yn gyfrifol am roi profiad gwych i ymwelwyr - gan fod pob unigolyn yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal leol. Mae'r CRhC yn weithredol o dan "Cyrchfan Conwy", sef sefydliad partneriaeth sy'n anelu i gefnogi a hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal leol.

Mae Grŵp Llywio gan Cyrchfan Conwy sy'n goruchwylio gweithgareddau a chamau er mwyn cynorthwyo Conwy i reoli ei chyrchfannau yn ei huchelgais a'i gweledigaeth. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r economi leol, yn enwedig y sector twristiaeth. Mae'n ystyried ardaloedd daearyddol y sir, a'r gwahanol fusnesau a chyrff cynrychioliadol ar draws y diwydiant twristiaeth, yn ei ystyr ehangaf.

Bydd y Grŵp Llywio yn creu ac yn goruchwylio Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar yr amcanion a'r blaenoriaethau, ac sy'n sicrhau canlyniadau penodol a dargedir, gan ddechrau o fewn chwe mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Rheoli hwn. Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu hwn fod yn ddeinamig ac yn rhagweithiol, a bydd yn datblygu'n gyson ac yn ymateb i amgylchiadau neu gyfleoedd neilltuol a allai godi. Gan hynny, nid yw'r Cynllun Gweithredu yn ymddangos yn y ddogfen hon, ond bydd yn ymddangos fel darn parhaus o waith fydd yn newid ac yn datblygu gydag amser.

Mae'r Grŵp Llywio ar hyn o bryd yn gweithredu nifer o is-grwpiau - fel Marchnata, Datblygu Twristiaeth Drwy'r Flwyddyn Gron, Sgiliau, Canolfannau Ymwelwyr, a Rheoli Cyrchfannau - sydd yn cynnwys aelodau'r Grŵp Llywio ac arbenigwyr eraill perthnasol. Rhagwelir y bydd yr is-grwpiau hyn, neu is-grwpiau eraill fel bo'r angen, yn goruchwylio'r camau arfaethedig, gan eu bod yn fach, yn sionc ac yn canolbwyntio ar gyflawni. Mae'r is-grwpiau yn adrodd yn ôl yn rheolaidd wrth y Grŵp Llywio ehangach.

Rydym wedi gweld bod y model partneriaeth agos hwn, rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn fwyfwy rhagweithiol a llwyddiannus o ran eu gallu i ddylanwadu ar bolisi ac ystyried gofynion y gwahanol grwpiau sy'n ymwneud â'r gyrchfan, profiadau'r ymwelwyr a'r economi leol, a'r cyfyngiadau arnynt. Bu'r model hwn yn llwyfan ddelfrydol er mwyn datblygu'r CRhC hwn ac yr un mor ddelfrydol er mwyn cyflawni'r Cynllun.



# 9 Cwmpasu ymagwedd strategol

Mae rhan helaeth o economi twristiaeth Conwy wedi'i seilio ar fusnesau bach a micro, a redir gan entrepreneuriaid ac unigolion ymroddedig sy'n darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ymwelwyr. Mae'n bwysig bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn eu cefnogi yn eu busnesau ac wrth eu gwaith. I'r un graddau, mae angen i'r Cynllun ystyried yr amcanion strategol ehangach y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (yn ogystal â phartneriaid eraill ar draws byd busnes a'r llywodraeth) yn ceisio eu cyflawni er budd y gymuned gyfan, drwy greu economi gref sy'n ffynnu ac yn llwyddo.

O ganlyniad i hynny, mae'r Cynllun hwn yn ystyried y strategaethau a'r amcanion a osodir yn y meysydd a ganlyn, ac yn ceisio eu cefnogi:

- **Strategaeth Twf Economaidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
  Mae gan dwristiaeth ran allweddol yn y strategaeth hon, gyda ffocws ar ddatblygu twristiaeth drwy'r flwyddyn gron (drwy atgyfnerthu twristiaeth y gaeaf), ar ddatblygu economi gref gyda'r nos, ac ar ddatblygu strategaethau ar gyfer digwyddiadau a'r celfyddydau.
- **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
  Gan fod twristiaeth yn rhan hollbwysig o'r sir, bydd angen i Gynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor (sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd) a'r polisi cynllunio ehangach ar ei gyfer gwmpasu, diogelu a chefnogi'r sylfaen a geir eisoes ar gyfer twristiaeth o ran seilwaith a llety, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu twristiaeth yn y dyfodol.
- **Strategaeth Ddiwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
  Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn datblygu Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer 2019, fydd yn bwysig er mwyn i'r sir ddangos ei chyfeiriad a'i blaenoriaethau. Bydd cysylltu hyn â thwristiaeth yn gam allweddol yn y dyfodol.
- **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
  Mae twristiaeth wedi'i nodi'n sector allweddol, gyda ffocws ar ddatblygu twristiaeth drwy'r flwyddyn gron, ac ar feithrin a gwella sgiliau yn y diwydiant lletygarwch a thwristiaeth drwy greu canolfan academi dwristiaeth.
- **Strategaeth Twristiaeth Partneriaeth Twf Llywodraeth Cymru 2013-2020**
  Rhoddir sylw manwl i bum prif faes y strategaeth hon - hyrwyddo'r brand, datblygu cynnyrch, datblygu pobl, perfformiad proffidiol a meithrin lle.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru**
  O ran yr hyn y mae Conwy'n ei gynnig, mae'n allweddol amlygu diwylliant ac iaith ffyniannus Cymru, sydd yn gysylltiedig â dyheadau'r Ddeddf hon. Bydd economi dwristiaeth lwyddiannus a llewyrchus, sy'n bwydo i'r economi ehangach yn cael effaith gadarnhaol drwy wneud Cymru'n lle mwy llewyrchus, yn lle iachach, yn lle mwy cyfartal, mwy cydnerth, mwy ymatebol yn fyd-eang ac yn fwy cydlynus.

Nid yw'n syndod bod llawer o ddyheadau a strategaethau yn y chwe maes hyn yn gorgyffwrdd y naill a'r llall, ac yn gwbl gyson â'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y CRhC hwn.





# 10 Beth rydym am ei gyflawni?

Ar ôl ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws yr ardal, ac ystyried cyd-destunau ehangach y Cynllun Cyrchfan, mae Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy wedi nodi saith amcan cyffredinol. O dan yr amcanion hyn, ceir nifer o flaenoriaethau strategol. Dyma ein hamcanion a'r is-flaenoriaethau cysylltiedig:

**A Cynyddu gwerth twristiaeth drwy'r flwyddyn gron**

- i cynyddu effaith economaidd twristiaeth ar Sir Conwy gan gyrraedd £1biliwn erbyn 2027;
- ii sicrhau cynnydd cyfartalog o 3% yn uwch na chwyddiant yn yr effaith economaidd fesul ymwelydd dros y 5 mlynedd nesaf;
- iii cefnogi cynnydd yng nghyfran gyffredinol y swyddi amser llawn o 59% i 70%;
- iv agor cyfleoedd i gefnogi cynnig twristiaeth drwy'r flwyddyn gron ar draws y sir ac ar gyfer busnesau mewn ardaloedd lle ceir llai o ymwelwyr;
- v annog buddsoddiad, arloesi ac entrepreneuriaeth ar draws y sector twristiaeth.

**B Sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd profiadau ymwelwyr**

- i sicrhau bod cyfleusterau ac amwynderau cyrchfannau yn cael eu cynnal a'u gwella'n effeithiol er budd preswylwyr ac ymwelwyr, y naill a'r llall, drwy'r flwyddyn gron;
- ii annog a chefnogi ein busnesau stryd fawr ac adwerthu gan eu bod yn chwarae rhan bwysig yn y cynnig ehangach i ymwelwyr o fewn y sir;
- iii sicrhau bod ansawdd y cynnig i ymwelwyr yn flaenoriaeth, gan sicrhau'n enwedig fod darpariaeth llety, atyniadau, cyfleusterau a gwasanaethau ar draws y sir yn rhagorol;
- iv darparu opsiynau cludiant integredig gwell ar draws y sir;
- v hyrwyddo a chefnogi gwelliannau a chyfleoedd seilwaith yn weithredol a fyddai o fudd i ymwelwyr ac annog mynediad gwell at bob agwedd ar brofiadau'r ymwelydd.

**C Cynnwys ymwelwyr yn ein treftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig**

- i gwella'r addysg i fusnesau masnach am atyniadau treftadol a diwylliannol, gan alluogi gwybodaeth well i ymwelwyr, ac adrodd hanesion treftadol a chreu naws am le er mwyn datblygu profiadau newydd i ymwelwyr;
- ii ymgysylltu â themâu Croeso Cymru;
- iii annog mwy o ymgysylltu â chynhyrchwyr bwyd a cheisio gwelliannau yn y gadwyn gyflenwi rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr terfynol;
- iv cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol unigryw, gan bwysleisio dwyieithrwydd a chwalu mythau drwy addysgu a chynnwys masnach ac ymwelwyr;
- v archwilio cyfleoedd i annog amrywiaeth yn y sector amaethyddol.

**D Cefnogaeth i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â sgiliau a'r gweithlu**

- i nodi setiau sgiliau a materion staff allweddol, yn bresennol ac i'r dyfodol;
- ii gweithio gyda phartneriaid perthnasol i roi cymorth hyfforddiant gyrfa a chydol oes i fusnesau ac unigolion;
- iii sicrhau bod yr Academi Dwristiaeth arfaethedig yn darparu hyfforddiant a chymorth wedi'i gynllunio'n arbennig sy'n mynd i'r afael â gofynion lleol a rhanbarthol, a bod cysylltiadau rhwng Cyrchfan Conwy a'r prosiect;
- iv gweithio gyda busnesau twristiaeth i amlygu ansawdd cyfleoedd gyrfa o fewn yr economi dwristiaeth leol.

**E Gweithio mewn partneriaeth**

- i sicrhau y ceir ymgysylltu ar draws y Cyngor a'r gymuned ynghylch pwysigrwydd y sector twristiaeth a'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r sector hwnnw, fel bod preswylwyr a busnesau, y naill a'r llall, yn cael eu cynnwys yn y broses o greu profiadau i ymwelwyr;
- ii gwella'r ddealltwriaeth o'r effaith luosogi ac annog cefnogaeth i gyflenwyr lleol er mwyn cadw gwariant o fewn yr economi leol a datblygu "Punt Conwy";
- iii hyrwyddo a chefnogi'r broses o wella ansawdd ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaeth ym maes twristiaeth;
- iv gweithio gyda phartneriaid perthnasol i ddarparu cynnig twristiaeth sy'n ffynnu drwy'r dydd a thrwy'r flwyddyn gron;
- v ymgysylltu â phartneriaid er mwyn darparu data cadarn ar dwristiaeth yn Sir Conwy, yn enwedig er mwyn deall y darlun o dwristiaeth yng ngwahanol rannau o'r sir, yn enwedig yn Nwyrain y sir.

**F Datblygu proffil cadarnhaol drwy farchnata'n effeithiol**

- i darparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr am amwynderau lleol ar draws yr holl lwyfannau;
- ii gweithio gyda phartneriaid perthnasol i hyrwyddo Sir Conwy a'r profiad i ymwelwyr fel cyrchfan dwristiaeth sydd ar agor drwy'r flwyddyn gron;
- iii monitro tueddiadau ymwelwyr a chanfod marchnadoedd targed i greu mentrau a datblygu cynnyrch;
- iv datblygu rhaglen ddigwyddiadau sy'n cefnogi cynnig twristiaeth drwy'r flwyddyn gron;
- v gweithio tuag at frand priodol ar gyfer y rhanbarth cyfan.

**G Sicrhau bod Fframwaith Cynllunio'r Sir yn bodloni anghenion y diwydiant ac yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â thueddiadau sydd yn dod i'r amlwg ym maes twristiaeth**

- i fframwaith cynllunio sydd yn cynnwys anghenion, gofynion a chyfleoedd y sector twristiaeth, ac yn eu hyrwyddo'n weithredol;
- ii fframwaith cynllunio sydd yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth mewn modd a fydd yn cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol negyddol, ac sydd hefyd yn ystyried y cyfleoedd i wella bioamrywiaeth;
- iii bod penderfyniadau cynllunio yn ystyriol o'r seilwaith twristiaeth sy'n bodoli eisoes;
- iv fframwaith cynllunio sy'n ddeinamig ac yn hyblyg wrth ymateb i'r sector twristiaeth cyflym-newidiol;
- v fframwaith cynllunio sydd yn ymdrin â natur ddatblygol llety twristiaeth ac yn mabwysiadu dull clir o reoli'r gwahanol fathau o lety.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn creu Cynllun Gweithredu deinamig. Bydd y Cynllun hwn yn pennu tasgau a phrosiectau penodol yn unol â'r blaenoriaethau, ynghyd â chanlyniadau mesuradwy dros fframiau amser cytunedig. Yn ogystal â hyn, bydd y Cynllun Gweithredu yn ymateb i unrhyw ofynion neu amgylchiadau newidiol, fel bo modd i'r Grŵp Llywio barhau i fod yn rhagweithiol ac ar y blaen wrth gyflawni amcanion y Cynllun Cyrchfan hwn.






## 11 Cynllun Gweithredu

Fel y soniwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn llywio ac yn monitro'r dyheadau a'r cyfeiriad a nodir yn y Cynllun hwn. Gwneir hyn drwy greu Cynllun Gweithredu cadarn a deinamig, gan gytuno ar y camau cyntaf, a'u cychwyn, cyn pen chwe mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Rheoli. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithgareddau cytunedig a chanddynt fframiau amser penodol a chanlyniadau mesuradwy, a methodoleg fanwl ar gyfer cyflawni.

Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu nid yn unig bennu cyfres barhaus o brosiectau a gweithgareddau penodol fydd yn ymateb yn rhagweithiol i'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd uchod ond, yn ogystal â hynny, creu canlyniadau cadarnhaol yn sail i'r amcanion yn Strategaeth Twf Economaidd y Cyngor yn ogystal â dyheadau Llywodraeth Cymru. Yn bwysicach na hynny, bydd yn galluogi busnesau lleol ar draws y sector twristiaeth, a'r economi leol ehangach, i fanteisio ar gyfleoedd a gweithredu syniadau fydd yn sbarduno eu llwyddiant a'u gallu i greu elw er budd y gymuned gyfan.

Os bydd y Grŵp Llywio yn ei fonitro'n rheolaidd, bydd modd i'r Cynllun Gweithredu ymateb i newidiadau yn y farchnad dwristiaeth ac i gyfleoedd a allai ddod i'r amlwg. Cynigir y dylid cynnwys y Cynllun Gweithredu fel eitem reolaidd ar Agenda'r Grŵp Llywio, ac y dylid adrodd yn ôl ar y cynllun yn rheolaidd wrth Gabinet y Cyngor.

## 12 Manylion Cyswllt

Mae Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn croesawu ymholiadau pellach am unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, neu am dwristiaeth yn gyffredinol.

Ceir hyd i wybodaeth gyffredinol am dwristiaeth ar wefan Cyrchfan Conwy yn **www.visitconwy.org.uk**

Gellir cyflwyno ymholiadau pellach am y ddogfen hon i:

**Jon Merrick**
Rheolwr Datblygu Busnes a Thwristiaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**jon.merrick@conwy.gov.uk**

**+44 01492 574551**